**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Seneddpetitions@senedd.wales

13 Ionawr 2021

Annwyl Cadeirydd

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Tachwedd am ddeiseb ynglŷn â chaniatáu i bobl gyfarfod gan ddilyn mesurau pellter cymdeithasol mewn gerddi preifat. Cyfeiria'r ddeiseb at ymweliadau â chartrefi gofal, unigolion sy'n cael eu gwarchod, yn ogystal â chynulliadau cyffredinol mewn gerddi.

Caniateir i ymweliadau â chartrefi gofal gael eu cynnal o dan lefel rhybudd pedwar am resymau tosturiol, ond dylid eu cyfyngu i ymweliadau yn yr awyr agored, neu ymweliadau mewn podiau ymweld neu fannau caeedig tebyg. Bydd ymweliadau o'r fath yn cael eu hatal dros dro os ceir achosion yn y cartref.

Caniateir i ymweliadau dan do gael eu cynnal mewn cartrefi gofal mewn amgylchiadau eithriadol gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i ddiwedd oes, fel y gwnaed gydol y pandemig.

Cyfrifoldeb y darparwr unigol yn y pen draw yw penderfynu a ellir cynnal ymweliadau â chartref gofal, ac o dan ba amgylchiadau. Ym mhob achos, rhaid i'r darparwr weithredu asesiadau risg, mesurau cadw pellter cymdeithasol a mesurau diogelwch priodol cyn caniatáu i ymweliadau gael eu cynnal, a gofynnir i bobl gysylltu â nhw cyn teithio.

Gweler y ddolen ynghylch ymweliadau â chartrefi gofal https://llyw.cymru/ymweliadau-chartrefi-gofal-canllawiau-i-ddarparwyr a chanllawiau ynghylch lefelau rhybudd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru-ar-gyfer-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-i-oedolion-a-phlant

Cafodd y trefniadau i warchod unigolion eu argymell rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020. Mae'r Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi diweddaru y canllawiau hyn i gefnogi pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol i ddiogelu eu hunain rhag dod i gysylltiad â'r coronafeirws oherwydd bod Cymru yn awr ar lefel rhybudd 4. Y cyngor yn awr yw na ddylai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol fynd i'r gwaith na'r ysgol y tu allan i'r cartref.

Rydym yn gwybod bod cael eu hynysu am gyfnodau hir yn gallu bod yn niweidiol i iechyd meddwl ac iechyd corfforol unigolion, felly gall y rheini sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol fod yn aelod o swigen gymorth o hyd, ar yr amod bod y rhagofalon priodol yn cael eu dilyn. Anogir yr unigolion hyn i barhau i fynd allan i wneud ymarfer corff a mynychu apwyntiadau meddygol.

Mae pawb yng Nghymru yn ddarostyngedig i reoliadau sydd ar waith o dan lefel rhybudd pedwar ar hyn o bryd, ac felly rhaid iddynt aros gartref. Ni all pobl gyfarfod ag unrhyw un arall o dan do nac yn yr awyr agored yn gymdeithasol oni bai eu bod yn rhan o swigen gymorth neilltuol.

Mae'r coronafeirws yn feirws hynod heintus – mae'n ffynnu pan ddaw pobl i gysylltiad â'i gilydd. Mae'r amrywiolyn newydd yn y DU hyd yn oed yn fwy heintus. Er mwyn cadw ein gilydd yn ddiogel, mae angen inni leihau nifer y bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw a'r amser yr ydym yn ei dreulio gyda nhw. Golyga hyn fod angen lleihau cysylltiad cymdeithasol cymaint â phosibl.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**